

Ellis Cooper BSc (Anrh)
Dirprwy Brif Weithredwr
Deputy Chief Executive

Uned 5, Parc Busnes Triongl,
Pentre-bach,
Merthyr Tudful, CF48 4TQ



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Mr Paul Selby BA (Anrh) Saesneg MSc MRTPI
d/o Swyddog Rhaglen Archwilio'r CDLI
Uned 5, Parc Busnes Triongl
Pentre-bach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

Unit 5, Triangle Business Park,
Pentrebach,
Merthyr Tydfil, CF48 4TQ

Ffôn/Tel: (01685) 725000
Ffacs/Fax: (01685) 374397
www.merthyr.gov.uk

Anfonwyd trwy e-bost i: programmeofficer@merthyr.gov.uk

	Dyddiad/Date:	9 Mai 2019
Ein Cyf/Our Ref: EXAM01	Gofynnwch am/Please ask for:	Mr John Raine (Arweinydd Grŵp Cynllunio Polisi)
Eich Cyf/Your Ref: PS/TS	Llinell Uniongyrchol/Direct Line:	01685 726279
	E-bost/E-mail:	john.raine@merthyr.gov.uk

Annwyl Mr Selby

Archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol: Cwestiynau Cychwynnol i'r Cyngor

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 25 Ebrill 2019 yn gofyn am ragor o wybodaeth, mae'r Cyngor wedi ystyried ac ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Eir i'r afael â'r materion hyn yn eu tro isod, ac amgawyd dogfennau i'w hategu lle bo angen.

Y Rhaglen Seilwaith

Mae'r rhaglen a luniwyd yn nodi'r seilwaith sy'n gwbl angenrheidiol i ddatblygu'r safleoedd a glustnodwyd yn y CDLI Amnewid. Mae'r ddogfen yn cynnwys dwy restr: mae'r cyntaf yn cynnwys y seilwaith safle-benodol sydd ei angen i hyrwyddo dyraniadau tai a chyflogaeth y Cynllun; mae'r ail yn cynnwys eitemau seilwaith ychwanegol sydd wedi'u nodi neu'u diogelu yn y Cynllun.

At hynny, mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys costau dangosol y seilwaith gofynnol, y partïon fydd yn gyfrifol am ddarparu'r seilwaith, a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r gwaith.

Hyfywedd a Chyflenwad y Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Daeth y gyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer draenio dŵr wyneb mewn datblygiadau newydd i rym ar 7 Ionawr 2019 yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau statudol o dan Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Yn ôl hyn, mae'n ofynnol bod pob datblygiad newydd (o fwy nag 1 annedd neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr) yn cael rhwydd hynt gan Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (y CCS) ar gyfer y system ddraenio arfaethedig cyn i'r gwaith adeiladu ddigwydd. Rhaid i ymgeiswyr am gymeradwyaeth y CCS ddangos sut y maent wedi cydymffurfio â'r egwyddorion draenio cynaliadwy neu roi cyfiawnhad dros gefnu arnynt. Ategir yr egwyddorion gan nifer o safonau dylunio y bydd angen eu defnyddio ar gyfer y system ddraenio arfaethedig. Mae'r gyfundrefn yn gymharol newydd ac nid oes yr un gymeradwyaeth wedi symud ymlaen trwy broses gymeradwyo CCS yr awdurdod lleol o fis Mai 2019. Mae hyn oherwydd trefniadau trosiannol sy'n eithrio cynigion datblygu newydd na chafodd benderfyniad cyn 7 Ionawr 2019, er bod cynigion dilys ar eu cyfer wedi dod i law.

Mae manylion am asesiadau safle'r Cyngor wedi'u cynnwys ym Mhapur Cefndir yr Asesiad Safle (Dogfen Gyflwyno SD46). Mae asesiadau safle'r Cynllun Adnau a'r dyraniadau safle a wnaed yn sgil hynny, wedi'u cynnal yn unol â'r gyfundrefn ganiatâd flaenorol ar gyfer draenio dŵr wyneb, ac yn unol â'r systemau cynllunio a rheoli adeiladu. Yn ôl y polisi cenedlaethol, a gynhwyswyd bryd hynny yn Argraffiad 9 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC), roedd asesiadau safle yn ystyried bod cyfleoedd i gynigion datblygu newydd gynnwys nodweddion a fyddai'n addasu ac yn gwrthsefyll effeithiau presennol y newid hinsawdd a'r hyn a ragwelir ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, cynnwys manau gwyrdd er mwyn darparu systemau draenio cynaliadwy i leihau dŵr ffo (PCC Argraffiad 9, paragraff 4.12.3). At hynny, wrth baratoi'r Cynllun Adnau, ystyriwyd y polisi cenedlaethol sy'n cynghori y dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio defnyddio safleoedd lle gellir datrys y problemau yn ymwneud â chyflenwi/draenio dŵr, a cheisio osgoi safleoedd sy'n annhebygol o gyflenwi/draenio dŵr yn ddigonol (PCC Argraffiad 9, paragraff 12.4.1, a PCC Argraffiad 10, paragraff 6.6.12).

Wrth asesu safleoedd, rhoddwyd ystyriaeth i gyfyngiadau ffisegol y SDCau ynghyd â'u cyfleoedd, yn ogystal â ffyrdd o wella manau agored a bioamrywiaeth ar leoliadau unigol. O ganlyniad, mae datblygiadau newydd wedi'u sefydlu mewn ardaloedd lle mae seilwaith draenio neu gyrsiau dŵr eisoes ar gael. Mae cyfeiriad at y cyfleoedd hyn i'w weld yn y Manylion Dyraniad Safle a gynhwyswyd yn Atodiad 1 o Ddatganiad Ysgrifenedig y Cynllun Adnau.

Er bod cyfleoedd i greu SDCau a gwella seilweithiau gwyrdd wedi cael eu hystyried fel rhan o asesiadau safle, mae'r gofyniad newydd am gymeradwyaeth y CCS yn sefydlu cyfundrefn gydsynol ar wahân ac yn ffurfioli'r dasg o flaenoriaethu nodweddion draenio cynaliadwy. Yn benodol, mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gyfiawnhau'r dewis o gyrchfan dŵr ffo (Safon S1 - y safon hierarchaeth) ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos sut y ânt i'r afael ag egwyddorion cyffredinol y SDCau neu roi cyfiawnhad dros gefnu arnynt.

Mae 5 lefel wedi'u blaenoriaethu ar gyfer dynodi dŵr wyneb ffo. Y rhain yw: cynaeafu dŵr wyneb ar gyfer defnydd dŵr anyfadwy (lefel 1), ymdreiddio i'r ddaear (lefel 2), gollwng i gorff o ddŵr wyneb (lefel 3), gollwng i garthffos dŵr wyneb, draen ffordd, neu system ddraenio arall (lefel 4) ac yn olaf, gollwng i garthffos gyfun (lefel 5). Dylid diwallu Lefel 1 i'r graddau mwyaf posibl, gan ddefnyddio lefelau is lle bo angen a lle bo cyfiawnhad. Gall gwahanol lefelau fod yn addas ar gyfer gwahanol rannau o'r safle, a gallai fod angen mwy nag un lefel i ddraenio'r safle'n ddigonol. Bydd angen i'r nodweddion draenio cynaliadwy arfaethedig hefyd fodloni Safonau S2 - S6 sy'n nodi'r meini prawf dylunio y dylai pob nodwedd ddraenio gynaliadwy eu bodloni wrth gael eu hadeiladu, eu gweithredu a'u cynnal.

Bydd cyflwr y tir, nodweddion y safle, cyfleoedd y safle, a chynigion manwl y datblygiad, i gyd yn penderfynu pa nodweddion draenio cynaliadwy a fydd yn briodol neu'n bosibl ar bob safle. Gan mai ychydig o fanylion sydd ar gael wrth baratoi'r Cynllun o ran ymchwiliadau tir a chynigion datblygu, bydd terfyn i'r modd y gellir rhagweld pa ofynion mewn perthynas â'r tir y bydd y CCS yn eu cymeradwyo, gan y bydd llawer yn dibynnu ar nodweddion y cynnig i gadw dŵr wyneb (fel cynaeafu dŵr wyneb) ac ar gyflwr y tir.

Mae'r Canllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy yn cynghori bod cynllunio strategol yn darparu ar gyfer systemau draenio cynaliadwy, gan sicrhau gofod mewn datblygiad fel bod modd cynnwys nodweddion wyneb sy'n fwy tebygol o ddarparu manteision niferus, a sicrhau nad oes rhaid i SDCau gael eu "gwasgu i mewn" a chyfaddawdu (paragraff 2.18). Yn ychwanegol, mae Argraffiad 10 o'r PCC yn datgan y dylai'r system gynllunio sicrhau, wrth lywio datblygiad newydd, bod y mesurau'n cael eu hymgorffori ar raddfa safle unigol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, er mwyn sicrhau manteision cronus dros ardal eang. Ar lefel ddatblygu'r cynllun, mae Argraffiad 10 o'r PCC yn cynghori y daw manteision sylweddol o ddatblygu dulliau cydweithio sydd, gan ddefnyddio

tystiolaeth asesiadau o'r seilwaith gwyrdd, yn integreiddio SDCau fel rhan o strategaethau twf ar gyfer ardaloedd penodol (paragraff 6.6.18).

Yn hyn o beth, mae'r Canllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy yn awgrymu y gallai ymarfer mapio cyfleoedd gan y CCS helpu i ddewis y lleoliad a'r cyfleoedd gorau ar gyfer SDCau (paragraff 2.21). Er enghraifft, mapio, ymhlith manylion eraill, y datblygiad, y seilwaith, y topograffi, y gofod gwyrdd, y perygl o lifogydd, a defnyddio'r wybodaeth i weld lle mae'r cyfleoedd gorau ar gyfer cyflawni lluo o fanteision.

Er bod cyfleoedd i ymgorffori draenio cynaliadwy a gwelliannau seilwaith gwyrdd eraill wedi'u nodi yn asesiadau safleoedd y Cynllun Adnau cyn cyhoeddi'r canllawiau hyn, ni chynhaliwyd ymarfer mapio manwl o'r cyfleoedd ar gyfer SDCau ymhob safle. Felly, bydd effaith bosibl ar safonau'r systemau draenio cynaliadwy a chyfundrefn gydsynio'r CCS yn gofyn am asesiad pellach ar lefel safle ynghyd ag ymgynghoriad â CCS yr Awdurdod Lleol.

Mae gwaith ar hyn eisoes wedi dechrau ac mae asesiad cychwynnol o'r dyraniadau safle yn awgrymu y gellid ymgorffori systemau draenio cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt, naill ai trwy gynnig digon o gapasiti ffisegol (h.y. ardaloedd annatblygedig sy'n weddill ar ôl cyfrif am y rhai datblygadwy net) neu trwy fod yn addas i ddulliau draenio sy'n defnyddio llai o dir.

Mae'r Cyngor wedi cynnal cyfarfodydd cychwynnol gydag ymgynghoreion mewnol y CCS i ystyried gofynion draenio cynaliadwy ar safleoedd unigol, a chynigir y dylid paratoi Papur Cefndir ar Ddraenio Cynaliadwy sy'n nodi'r asesiad ac unrhyw oblygiadau perthynol. Caiff hyn ei gyflwyno erbyn 11 Mehefin 2019. Ar ben hyn, byddai unrhyw argymhellion safle-benodol yn cael eu cynnwys yn Natganiadau Gwrandawriad y Cyngor sydd hefyd i'w cynnal erbyn 11 Mehefin 2019.

Ar gyfer safleoedd mawr, sy'n debygol o gynnwys gwahanol gwmnïau yn datblygu gwahanol ddarnau o dir o fewn yr un safle, mae'r canllawiau statudol yn argymhell y dylid dylunio SDCau gan gadw'r safle cyfan mewn golwg. Yn hyn o beth, mae'r CDLI Amnewid yn cynnwys un dyraniad safle mawr yn Ardal Adfywio Strategol Hoover (HRSA) lle bydd angen gweithredu dull o'r fath. Mae'r gofyniad am ddraenio cynaliadwy wedi'i ymgorffori yn uwchgyllun yr HRSA a Pholisi SW6 y CDLI (gofynion Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored). Cafodd y gofyniad am SDCau ei ymgorffori'n gynnar ac mae'r Cyngor yn hyderus y gellir cyflawni'r lefel o dwf a nodwyd ar y safle strategol wrth ymgorffori'r seilwaith gwyrdd a'r nodweddion draenio cynaliadwy sy'n ofynnol o dan Bolisi SW6.

O ran polisiâu'r Cynllun sy'n ceisio neu'n hyrwyddo SDCau, gan fod gofynion y SDCau yn rhan o'r gyfundrefn gydsynio newydd, mae'r Cyngor o'r farn mai dim ond mân newid i eiriad Polisi SW11 sydd ei angen i sicrhau bod y polisi yn gyson â'r gyfundrefn gymeradwyo newydd ar gyfer draenio cynaliadwy. Yn benodol, cynigir newidiadau i faen prawf 4 y polisi fel y nodir isod:

Polisi SW11: Dylunio Cynaliadwy a Chreu Lleoedd

Rhaid i ddatblygiad gyfrannu at y nod o greu lleoedd deniadol a chynaliadwy trwy ddylunio graenus, cynaliadwy a chynhwysol.

Bydd gofyn i ddatblygiad newydd:

1. fod yn briodol i'w gyd-destun lleol o ran graddfa, uchder, crynswth, triniaeth weddluniol, deunyddiau a manion, cynllun, ffurf, cymysgedd a dwysedd;
2. integreiddio'n effeithiol â manau cyfagos, tir y cyhoedd a'r amgylchedd hanesyddol i wella'r strydlyn cyffredinol a chreu treflun graenus;

3. peidio â chael effaith annerbyniol ar amwynderau lleol megis colli golau a phreifatrwydd a pheidio â gwaethgu'r effaith weledol: yn hytrach, dylid ymgorffori tirlunio o safon dda;
4. darparu seilwaith gwyrdd, gan gynnwys mannau agored yn unol â safonau'r Cyngor, systemau draenio cynaliadwy ~~Ile y bo'n briodol~~, a sicrhau bod rhwydwaith seilwaith gwyrdd y Fwrdeistref Sirol yn hygyrch ac yn gysylltiol;
5. caniatáu mynediad i'r ystod ehangaf bosibl o bobl, a dangos na fydd symudiadau traffig yn cael unrhyw effaith annerbyniol ar yr amwynderau lleol nac ar ddiogelwch y priffyrdd, a'u bod yn bodloni safonau parcio'r Cyngor;
6. ymgorffori adeiladau sy'n addasadwy/effeithlon o ran adnoddau gan ddefnyddio technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy;
7. lleihau'r galw am ynni a, lle bo'n briodol, defnyddio adnoddau ynni adnewyddadwy;
8. darparu a diogelu gwasanaethau cyfleustod a seilweithiau perthnasol heb achosi unrhyw effeithiau amgylcheddol annerbyniol;
9. ymgorffori mesurau i wella ansawdd dŵr daear a dŵr wyneb lle bynnag y bo modd;
10. darparu digon o gyfleusterau a lle i gasglu gwastraff ac ailgylchu; a
11. hyrwyddo'r dasg o greu amgylcheddau iach a bywiog a lleihau'r cyfle i droseddu ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

Yn ogystal â hynny, er mwyn egluro'r gyfundrefn gydsynio newydd a'r gofyniad i ymgorffori SDCau, cynigir y dylid ychwanegu testun ategol ychwanegol i baragraff 6.5.72 o dan bolisi SW11 (Dylunio a Chreu Lleoedd Cynaliadwy) fel a ganlyn:

6.5.72 Ymhlith y rhestr o ystyriaethau manwl, mae'r Polisi yn gofyn i gynigion datblygu newydd ddarparu ac integreiddio Seilwaith Gwyrdd ynghyd â **mannau agored a draeniad cynaliadwy**. Mae integreiddio Seilwaith Gwyrdd yn bwysig gan y gall arwain at fanteision cadarnhaol eraill i iechyd a llesiant. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, darparu amgylcheddau iach a bywiog, rheoli llifogydd, gwella ansawdd y dŵr a'r aer, lleihau llygredd sŵn, cymedroli hinsawdd, lliniaru newid yn yr hinsawdd, a chynhyrchu bwyd. Mae'r nodweddion a all helpu i fynd i'r afael â'r amcanion ehangach hyn yn cynnwys tirlunio, toeau gwyrdd, lleiniau glas, draeniad trefol cynaliadwy, mannau agored a gerddi. **Yn benodol, dylid nodi bod angen i bob datblygiad adeiladu newydd (sy'n cynnwys mwy nag 1 annedd neu 100 metr sgwâr) ymgorffori Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SDTC) sy'n bodloni'r safonau draenio cynaliadwy statudol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen cymeradwyaeth y CCS cyn cychwyn ar y gwaith adeiladu. O ganlyniad, dylid ystyried darparu SDTC fel rhan annatod o ddyluniad y datblygiadau newydd cyn gynted â phosibl.**

O ran Asesiad Hyfywedd y Cynllun (dogfen SD34) a goblygiadau'r gofynion newydd sy'n ymwneud â draenio cynaliadwy, mae'r wybodaeth bresennol ynglŷn â'r gost sylfaenol yn gyfyngedig gan nad oes, hyd yma, unrhyw enghreifftiau lleol o gynlluniau cymeradwy sydd wedi symud ymlaen drwy'r system. Er y gall gwybodaeth am gostau fod ar gael i'w hymgorffori yn yr Asesiad Hyfywedd, mae'r rhain yn annhebygol o fod yn gynrychioliadol o gostau SDCau nodweddiadol yn ystod cyfnod y Cynllun, o leiaf yn y tymor byr, wrth i ddatblygwyr a dylunwyr addasu'u harferion o ran cyflawni'r Safonau Draenio Cynaliadwy. At hynny, mae'n debygol y bydd amrywiad mawr yng nghostau'r cynllun wrth iddynt ymateb i nodweddion y safleoedd unigol a'r cynigion datblygu. Er enghraifft, bydd y symiau gohiriedig sy'n ofynnol i gynnal a/neu newid y system ddraenio yn amrywio gan ddibynnu ar union natur y system ddraenio arfaethedig.

Er gwaethaf hyn, mae'r Asesiad Hyfywedd wedi rhagdybio costau wrth ddelio â gweithiau arafu yn hanner y "safleoedd astudiaeth achos" (6 o'r 12 safle astudiaeth achos) lle ystyriwyd bod y rhain yn angenrheidiol oherwydd nodweddion y safle. Mae Tudalen 4 o Atodiad 1 yr Adroddiad Hyfywedd yn rhestru costau seilwaith ychwanegol a ystyriwyd yn yr asesiadau megis delio ag arafiad,

sefydlogrwydd a halogiad. Mae asesiadau o'r safleoedd datblygu hyn yn dangos y byddent yn parhau'n ariannol hyfyw petai angen gwaith i arafu'r draeniad.

Effeithiau Cydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi paratoi papur briffio newydd sy'n nodi sut yr aethpwyd i'r afael â thair nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn y broses o greu cynlluniau. Mae copïau o'r Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd yn y camau Cyn-adnau, Adnau a Newidiadau â Ffocws/Cyflwyniad, i'w gweld yn atodiadau'r papur hwn. Mae'r Dyletswyddau Cydraddoldeb hyn yn nodi sut y gallai'r Cynllun effeithio ar bobl neu grwpiau â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a chyfeirir at yr asesiadau hyn hefyd yn y papur briffio.

Map Cyfyngiadau a Map Cynigion

Mae'r Cyngor yn derbyn na ddylai Map Cyfyngiadau'r CDLI fod yn rhan o'r CDLI Amnewid ac mae'n cynnig diwygio geiriad paragraff 1.11 y CDLI i grisialu'r ffaith nad yw'n ffurfio rhan o'r Cynllun Datblygu a'i fod yn ddogfen atodol ar wahân. Gall y Cyngor hefyd gadarnhau bod y dynodiadau a amlinellir ar y Map Cyfyngiadau wedi'u hamlygu gan fecanweithiau neu ddeddfwriaethau eraill ac nad ydynt yn ddynodiadau polisi sydd raid eu dangos ar Fap Cynigion y CDLI. Byddid yn cynnig y newidiadau canlynol i baragraff 1.11:

1.11 Mae'r **Cynllun Datblygu Lleol** ~~'Cynllun Adnau'~~ cynnwys Datganiad Ysgrifenedig a Map Cynigion a ~~Map Cyfyngiadau~~ dyddiedig Mehefin 2018. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn nodi polisiau cynllunio lleol, dyraniadau defnydd tir a chyfiawnhad cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys fframwaith monitro. Mae'r Map Cynigion yn dangos y dyraniadau defnydd tir a'r dynodiadau cynllunio a gynigir yn y Cynllun. **Ynghyd â'r Cynllun, ceir Map Cyfyngiadau ar wahân dyddiedig Mehefin 2018** sy'n dangos y dynodiadau amgylcheddol presennol a'r cyfyngiadau ffisegol eraill. Dylid nodi bod y Map Cyfyngiadau yn gywir ar adeg ei gyhoeddi ac **y gellir ei ddiweddarau yn y dyfodol**. Mae ar gyfer dibenion dangosol **yn unig a** dylai cynigion datblygu manwl gael eu llywio gan wybodaeth gyfredol am gyfyngiadau a ddaw oddi wrth awdurdod cyfrifol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru neu Cadw.

Materion eraill

- **Parthau Llifogydd y Map Cyngor Datblygu**

Gallaf gadarnhau bod Swyddog GIS y Cyngor wedi cymharu set ddata'r Map Cyngor Datblygu (DAM) a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac a ddefnyddiwyd ar gyfer asesiadau safle'r Cynllun Adnau (a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2018) yn erbyn y set ddata DAM ddiweddaraf sydd ar gael gan Lle (a gyhoeddwyd ar 21 Ionawr 2019). Mae'r Cyngor yn cadarnhau nad oes unrhyw wahaniaethau rhwng y ddwy fersiwn o'r DAM o fewn ardal yr awdurdod, ac felly nid oes unrhyw newidiadau ym maint y parthau llifogydd ar y safleoedd a ddyrannwyd ym mis Mehefin 2018.

Ffynhonnell y Data: <http://lle.gov.wales/catalogue/item/DevelopmentAdviceMap2/?lang=cy>

- **Cynllun Cysyniad Ardal Adfywio Strategol Hoover (HRSA)**

Mae Cynllun Cysyniad Ardal Adfywio Strategol Hoover yn cael ei baratoi ar hyn o bryd mewn ymgynghoriad â'r adran o Lywodraeth Cymru sy'n prynu'r safle ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cynnwys hyn yn ein Datganiad Gwrandawriad sydd i'w gyflwyno erbyn 11 Mehefin 2019.

- **Cynllun Llesiant Lleol Cwm Taf**

Bellach, mae Cynllun Llesiant Lleol Cwm Taf 2018-2023 wedi'i gyflwyno ac mae hwn wedi'i restru yn y Llyfrgell Archwilio fel dogfen archwilio ED006. Yn ychwanegol, gan y cyfeirir at "Ddatganiad Llesiant" Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (2017) yn Natganiad

Ysgrifenedig y CDLI, caiff y ddogfen honno ei chyflwyno fel dogfen archwilio hefyd ac mae copi ohoni ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Polisiâu Ynni Adnewyddadwy a Mwynau (fel y'u diwygiwyd gan Newidiadau â Ffocws FC30, FC32 a FCM32)

Mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw wrthwynebiadau sy'n parhau mewn perthynas â pholisiâu'r Cynllun ar ynni adnewyddadwy a mwynau. Gan fod y gwrthwynebiadau yn gofyn am gyfiawnhad ychwanegol, bydd y Cyngor yn darparu hyn trwy Ddatganiadau Gwrandawriad yn hytrach na Datganiad Tir Cyffredin.

Bydd Datganiad Gwrandawriad y Cyngor yn rhoi'r cyfiawnhad dros ddiogelu'r adnoddau glo sylfaenol a bydd yn esbonio bod y Cynllun, trwy gynnwys Polisi EcW13 y CDLI, yn bodloni gofynion Argraffiad 10 o'r PCC. Mae safbwynt y Cyngor ar hyn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori ar Newidiadau â Ffocws (Tudalen 20 o'r Ddogfen Gyflwyno SD58) a chrynhwir hyn isod.

Mae paragraff 5.10.17 o Argraffiad 10 y PCC yn cynghori: "nid oes angen diogelu adnoddau glo sylfaenol. Ond caiff awdurdodau cynllunio, ac eithrio Parciau Cenedlaethol, ddewis diogelu adnoddau glo sylfaenol gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau unigol. Os dyna'u dymuniad, byddai gofyn iddynt gynnwys polisiâu priodol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r cyfnod cyn echdynnu, yn eu cynlluniau datblygu."

Mae paragraff 5.14.32 o Argraffiad 10 y PCC yn cydnabod y defnyddir glo gan fwyaf i gynhyrchu ynni (sydd bellach wedi'i ddiystyru o dan baragraff 5.10.14 ac eithrio mewn amgylchiadau cwbl eithriadol) ond mae gan lo ddibenion eraill. Fe'i defnyddir at ddibenion diwydiannol yn y diwydiant dur, mewn marchnadoedd carbon arbenigol, i wneud concrit ac at ddibenion domestig. Er enghraifft, mae'r glo a dynnir o Ffos-y-frân yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd mewn diwydiant i gynhyrchu dur. Felly, mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn briodol diogelu adnodd naturiol, cyfyngedig a sylfaenol megis glo. Byddai Polisi EcW13 y CDLI (Diogelu Mwynau), sy'n gofyn am roi ystyriaeth i echdynnu ymlaen llaw, yn cael ei ddefnyddio i ystyried unrhyw gynigion datblygu mewn ardaloedd lle diogelir glo. Gan yr ystyrir bod y polisi yn cydymffurfio â pharagraff 5.10.17 y PCC, ni chynigir unrhyw newidiadau pellach i'r CDLI yn hyn o beth.

O ran yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy, darperir tystiolaeth a chyfiawnhad ychwanegol dros bennu pellter o 2km ar gyfer cysylltu â'r grid a pham y tybir bod hynny'n briodol yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Darperir y cyfiawnhad hwn yn Natganiad Gwrandawriad y Cyngor yn hytrach na Datganiad Tir Cyffredin.

Yr eiddoch yn gywir

MISS J JONES
PRIF SWYDDOG CYNLLUNIO A GWASANAETHAU CYMDOGAETH |
CHIEF OFFICER PLANNING AND NEIGHBOURHOOD SERVICES

Amgaeadau:

1. CDLI Amnewid Merthyr Tudful 2016-2031 Atodlen Seilwaith - Mai 2019
2. Papur Briffio ar Asesiad Effaith Cydraddoldeb - Mai 2019
3. Datganiad Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2017